ARHOLIADAU 360°

Golwg fanylach ar craffu ar **gamsyniadau cyffredin**

Nawr fod yr arholiadau wedi dod i ben, mae'n bryd i'r byrddau arholi fynd ati i farcio a graddio'r holl gymwysterau a geisiwyd yn ystod yr haf. Bydd rhai myfyrwyr ar bigau'r drain i gael eu canlyniadau, ac eraill yn betrus braidd o weld pa ffrwyth ddaw o'u holl lafur. Ac yn gefndir i hyn oll, mae yna doreth o gamsyniadau a chamddealltwriaeth yn drysu'r darlun.

Mae perygl i'r camsyniadau yma gael eu hystyried yn ffeithiau, a gallai hynny niweidio hyder a thanseilio llwyddiannau ac ymdrechion myfyrwyr. Felly, beth am i ni gymryd golwg ar rai o'r pethau yr ydym wedi'u clywed, a dweud yn union be' 'di be?

1. The first year of students taking a new exam will be unfairly disadvantaged

Mae newidiadau wedi bod yng nghynnwys a strwythur y cymwysterau newydd. Mae ychydig o'r cynnwys yn newydd, neu wedi'i ddiweddaru, ac mae'r strwythur a dyluniad yr asesiadau wedi newid.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod cyflwyno cymwysterau newydd yn cael effaith ar berfformiad myfyrwyr.

Mae'r myfyrwyr sydd ym mlynyddoedd cyntaf y cymhwyster newydd yn debygol o gael marciau is yn eu harholiadau o gymharu â myfyrwyr y blynyddoedd blaenorol- oherwydd bod y papurau yn fwy cyfarwydd iddynt. Gelwir y patrwm hwn o newidiadau yn 'Sawtooth Effect', a bydd y perfformiad yn gwella dros amser wrth i'r athrawon a'r myfyrwyr ymgyfarwyddo â'r prawf newydd.

Er mwyn amddiffyn myfyrwyr rhag anfantais annheg wrth sefyll arholiadau newydd am y tro cyntaf, rydym ni'n defnyddio egwyddor canlyniadau cymharol. Mae hyn yn golygu bod disgwyl i ganlyniadau'r garfan genedlaethol o fyfyrwyr sy'n ceisio cymhwyster fod yn debyg i rai carfannau tebyg y blynyddoedd blaenorol. Yn ymarferol, gallwn ddisgwyl i fyrddau arholi addasu ffiniau graddau gwahanol er mwyn cydbwyso perfformiad gwannach mewn asesiadau - y 'Sawtooth Effect'.

parhad...

Mae'r dull hwn o gymharu canlyniadau wedi'i ddefnyddio gan fyrddau arholi yn y gorffennol er mwyn cynnal safonau yn ystod cyfnodau o newid cymhwyster. Mae gennym ragor o wybodaeth ynglŷn â'r dull canlyniadau cymharol mewn erthygl *'Golwg fanylach ar...'* ar wahân.

2. Mae cwota penodol ar gyfer graddau

Oni bai bod rheswm da, nid ydym yn disgwyl gweld newidiadau mawr yng nghyfrannau'r graddau a gaiff eu dyfarnu yn genedlaethol bob blwyddyn . Serch hynny, rydym yn derbyn y bydd ychydig o amrywiad mewn canlyniadau o un flwyddyn i'r nesaf, cyn belled â bod gan y bwrdd arholi dystiolaeth i gefnogi eu dull o osod ffiniau graddau.

Mae byrddau arholi yn gosod ffiniau graddau mewn cyfarfodydd dyfarnu, lle bydd pwyllgor o uwch-arholwyr yn ystyried ystod o dystiolaeth gan gynnwys dangosyddion ystadegol a gwaith myfyrwyr.

Pan fydd tystiolaeth yn cefnogi'r cynnydd - neu'r gwymp - mewn perfformiad, gall byrddau arholi ei gynnig i ni er mwyn cyfiawnhau pam y dylai gael ei adlewyrchu yn y canlyniadau- hyd yn oed os byddai hynny'n peri iddynt beidio â chydymffurfio â'r rhagolygon o ganlyniad.

3. Ni all ysgolion wella

Dyw hyn ddim yn wir. Hyd yn oed pan fydd canlyniadau cenedlaethol yn sefydlog, nid yw'n dull ni o gynnal safonau yn atal canlyniadau ysgolion unigol rhag gwella.

Rydym ni'n rhagdybio na ddylai cyfrannau'r graddau a ddyfernir yn genedlaethol amrywio llawer, oni bai bod rheswm da am hynny.

Bydd rhai ysgolion a cholegau yn cynnal canlyniadau cyson iawn am gyfnodau, ond pan fo cymhwyster yn newid rydym yn disgwyl mwy o amrywiaeth na'r arfer ym mherfformiad ysgolion a cholegau unigol o un flwyddyn i'r llall.

Gallai hyn ddeillio o sawl ffactor gwahanol, gan gynnwys newidiadau yn y modd y mae ysgolion yn cofrestru myfyrwyr ar gyfer arholiad, yr adeg y maen nhw'n gwneud hynny, a'r graddau y mae'r dysgu wedi addasu er mwyn ateb y gofynion newydd.

parhad...

4. Mae gradd C yn golygu rhywbeth gwahanol bob blwyddyn

Mae TGAU yn defnyddio model asesu 'cydadferol'. Hynny yw, maent yn caniatáu i berfformiad cryfach mewn un rhan o'r cymhwyster i gydbwyso perfformiad gwannach mewn rhan arall.

Nid cyfres o glwydi i'r myfyrwyr eu croesi yw TGAU. Yn hytrach, defnyddir dull 'ffit orau' sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth o arholiadau.

Mae hyn yn golygu y gallai dau fyfyriwr sydd wedi ennill gradd C fod wedi rhagori mewn elfennau gwahanol o'r cymhwyster, a gall eu canlyniadau ar lefel yr unedau unigol edrych yn wahanol iawn.

Efallai eich bod chi wedi clywed ambell i gamsyniad arall, ac yn awyddus i ddysgu beth sy'n wir a beth sydd ddim. Os byddwch chi'n clywed 'ffaith' nad ydych chi'n sicr ohoni, cysylltwch â ni ar bob cyfrif trwy anfon e-bost i comms@qualificationswales.org. Byddwn ni'n gwneud ein gorau i egluro pethau.

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222 @cymwysterau_cym